Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **3 Hydref 2017** |
| **Amser:** | **13:30 – 15:30** |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (JW) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu (SR)<br>Ditectif Uwch-arolygydd Steve Cockwell (Dit Arol)<br>Mrs Kerrie Phillips, Rheolwr Ymgysylltu Cyhoeddus (KP)<br>Arol. Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh(CM)<br>Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu (SR)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>DS Sian Davies, Swyddog Staff (DS SD) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 12/09/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2189 (cysylltiedig â 2184)** | Cynnal adolygiad o'r sefyllfa gyfredol a'i gyflwyno mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol. | **Parhaus** |
| **PB 2190** | SCHTh i rannu strwythur sefydliadol gyda HDP. | **Parhaus** |
| **PB 2191** | HT i baratoi ac adolygu costau manwl erbyn y Bwrdd Plismona nesaf, gyda chymorth yn cael ei roi gan adran gyllid HDP a'r PSA. | **Parhaus** |
| **PB 2192** | HT i gynnal trafodaethau anffurfiol ag awdurdod unedol Powys yn ystod y bythefnos nesaf. | **Cwblhawyd** |
| **PB 2193** | HT i gyflwyno dewisiadau ar Aberhonddu yng Nghyfarfod Bwrdd Ystadau mis Hydref. | **Parhaus** |
| **PB 2195** | Rhoi'r cytundeb ar gyfer gwasanaeth meddygol fforensig i CNC | **Cwblhawyd** |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 03/10/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| | **Penderfyniad: Cytunwyd y byddai tir yn cael ei** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **brynu ar gyfer dalfa newydd yn Sir Gaerfyrddin.** | |
| | **Penderfyniad: Y PSA a'r PS i gyfweld ag ymgeiswyr ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio.** | |

**2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 12 Medi a materion yn codi**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona'n gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod, gyda rhai mân ddiwygiadau.

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Diweddariad gweithredol

Dywedodd y PG bod dau swyddog wedi eu hatal o'u gwaith ar hyn o bryd. Diweddarodd y PG y Bwrdd ar nifer o faterion gweithredol gan gynnwys ymosodiad yn y Trallwng a arweiniodd at ddefnyddio gwn taser, anafu treisgar yn Llanelli a digwyddiad hylif gwenwynig a gwir niwed corfforol yng Nghaerfyrddin, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Dywedodd y PG bod pum swyddog heddlu wedi dioddef ymosodiadau ers y Bwrdd Plismona diwethaf ar 12 Medi. Diweddarodd y PG y Bwrdd ar Ymgyrch Vulture, sef patrôl ffiniol ym Mhowys gan gydweithio â Gogledd Cymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gorllewin Mercia a arweiniodd at 102 o wiriadau cerbyd yn HDP dros ddwy noson. Diweddarodd y PG y Bwrdd ar Ymgyrch Ulysses mewn perthynas â throseddau difrifol a threfnedig, ac achosion hanesyddol o gam-drin yn ardal HDP.

Diweddariad sefydliadol

Dywedodd y PG ei fod wedi croesawu naw o drosglwyddedigion newydd i'r Heddlu. Mae 22 swyddog ar brawf ac ymchwilydd sifilaidd wedi cychwyn gweithio i HDP. Mae HDP wedi croesawu ITV Productions am bedwar diwrnod wrth wneud DVD blasu mewn perthynas â phlismona cymuned wledig. Diweddarodd y PG y bwrdd ei fod wedi cynnal cyfarfod arweinwyr ffydd. Dywedodd y PG fod y PGC Liane James wedi cychwyn secondiad blwyddyn i Lywodraeth Cymru a diweddarodd y CHTh ar y prosesau dyrchafu parhaus.

**4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Lleol

Dywedodd y Comisiynydd ei fod wedi cwrdd â Chyngor Hil Cymru oherwydd mae mis Hydref yn Fis Hanes Pobl Dduon. Awgrymodd y CHTh gynnal digwyddiadau yn 2018 yn debyg i'r rhai a gynhaliwyd gan Heddlu Gogledd Cymru eleni, ac awgrymodd Aberystwyth a Llanelli fel lleoliadau posibl. Roedd y CHTh wedi cwrdd â'r Swyddog Amrywiaeth ar gyfer HDP er mwyn datblygu'r syniadau hyn. Diweddarodd y CHTh y PG ar newidiadau i strwythur staff SCHTh, er nad oedd modd rhannu'r manylion eto.

Cenedlaethol

Dywedodd y CHTh ei fod yn mynychu'r trafodaethau gyda Phrif Swyddog Gweithredol Cwmni TGCh yr Heddlu wythnos nesaf. Dywedodd y CHTh ei fod ef a'r CHTh Arfon Jones yn drafftio llythyr i Lywodraeth Catalonia yng ngoleuni gweithredu gan yr heddlu yn dilyn canlyniadau'r refferendwm yn Sbaen. Hysbysodd y CHTh y Bwrdd y byddai'r Symposiwm Ymchwil yn cael ei gynnal ddydd Iau.

## 5. Materion i'w Hystyried

### a. Ystadau

Diweddarodd y PSA y Bwrdd ar yr achos busnes ar gyfer anghenion dalfeydd Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad Gofynion Gweithredol yn nodi pum dewis sydd wedi eu costio dros y 30 blynedd nesaf. Y dewis â'r gost isaf oedd adeilad newydd cyn gynted â phosib oherwydd mai ond wyth mlynedd o ddefnydd sydd ar ôl gan y ddalfa gyfredol yn Llanelli. Dywedodd y PSA fod angen gwaith pellach er mwyn sefydlu gallu gofynnol y cyfleuster newydd. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r adeilad newydd. Gofynnodd y PSA am i unrhyw waith ar y cyd sy'n cael ei gwblhau mewn perthynas â safleoedd posibl gael ei anfon ati er mwyn hysbysu'r achos busnes. Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â dalfa newydd gan Heddlu De Cymru ar hyd coridor yr M4, fodd bynnag, penderfynwyd na fyddai lleoliad yr adeilad hwn yn bodloni gofynion Heddlu Dyfed-Powys.

**Penderfyniad: Cytunwyd y byddai tir yn cael ei brynu ar gyfer dalfa newydd yn Sir Gaerfyrddin.**

**Cam Gweithredu: Cyflwyno adroddiad ar opsiynnau ar gyfer dalfa yn Sir Gaerfyrddin i gefnogi'r penderfyniad ar brynu tir.**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyfleuster Aberhonddu. Gofynnodd y PSA am i unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'r cydweithio yn Ne Cymru gael ei rhoi iddi er mwyn hysbysu'r prosiect. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chynlluniau Cyngor Sir Powys ar gyfer tir yn Aberhonddu a sut y gallai hyn o bosibl effeithio ar ôl troed HDP yn Aberhonddu.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chostau llety. Cwestiynodd y CHTh y polisi ar gyfer trefnu llety i hyfforddedigion ac ymwelwyr â HDP. Symudodd y drafodaeth ymlaen at floc llety posibl ar gyfer HDP.

### b. Y ffordd y mae'r heddlu'n trin cwynion

Hysbysodd y Ditectif Uwch-arolygydd Steve Cockwell y Bwrdd fod ystadegau Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ar gyfer y chwarter cyntaf wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar a bod ffigurau HDP ar gyfer yr ail chwarter wedi'u hanfon at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Rhoddodd y Ditectif Uwch-arolygydd nifer y cwynion a gofnodwyd i'r Bwrdd ar gyfer yr ail chwarter: Cofnodwyd 159 o gwynion o'i gymharu â 135 y

DRAFT

flwyddyn flaenorol; 304 honiad o'i gymharu â 263 y flwyddyn flaenorol; 10% o gynnydd o ran y cwynion a'r honiadau a gofnodwyd. Awgrymodd y Ditectif Uwch-arolygydd y gall gwell perthynas rhwng yr Heddlu a Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus SCHTh fod wedi cyfrannu at nifer y cwynion a'r honiadau a gofnodwyd. Dywedodd y Ditectif Uwch-arolygydd fod amseroldeb datrysiadau lleol yn ddarlun gwell. O'r blaen, roedd HDP yn 43/44 ar gyfer datrysiadau lleol, gan gymryd dros 100 diwrnod i ddatrys cwynion. Yn y 3 mis diwethaf, mae'r diwrnodau wedi lleihau i 64, 54, yna 50. Gofynnodd y CHTh beth sydd tu ôl i'r gostyngiad. Dywedodd y Ditectif Uwch-arolygydd fod Fframwaith Perfformiad erbyn hyn o gwmpas trin cwynion sy'n cael ei reoli ar sail wythnosol a misol. Cynhaliwyd nifer o weithdai gyda Rhingylliaid ac Arolygwyr ar gyfer datrys cwynion. Cefnogaeth dda gan URSau. Bellach, mae 8 achos sy'n hŷn na 6 mis, sy'n welliant sylweddol o'r ffigwr blaenorol a oedd dros ddwbl y ffigwr hwnnw. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r achosion hŷn ac awgrymwyd fod llythyr yn cael ei anfon at achwynyddion er mwyn eu sicrhau bod eu hachosion yn derbyn sylw.

Dywedodd y Ditectif Uwch-arolygydd fod datganiad i'r wasg wedi ei gyhoeddi'n nodi'r ffigurau. Dywedodd y CHTh fod y datblygiadau o ran trin cwynion yn gam cadarnhaol, ac mae'n bwysig cael y stori newyddion da allan yn fewnol ac yn allanol. Holodd y CHTh am y gallu o ran trin cwynion. Dywedodd y PG fod fframwaith lywodraethu mewn grym erbyn hyn a fframwaith perfformiad o gwmpas trin cwynion. Dywedodd y Ditectif Uwch-arolygydd fod y data hefyd wedi ei ddiweddaru i Qlik View sy'n rhoi mynediad hawdd i swyddogion i'r cwynion sy'n aros.

**Cam gweithredu: KP i ysgrifennu at achwynyddion sydd wedi bod yn aros yn hir a drafodwyd yn ystod y cyfarfod gan nodi sut mae eu hachosion yn cael eu symud ymlaen.**

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch sut mae SCHTh a Heddluoedd eraill yng Nghymru'n mynd ati i drin cwynion, a dyfodol y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus o fewn SCHTh yn Nyfed-Powys. Awgrymodd y CHTh bod rhywfaint o ddryswch ymysg aelodau o'r cyhoedd o ran pa un ai a yw eu cwyn yn cael ei thrin gan y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus neu'r Adran Safonau Proffesiynol, a pha un ai a yw eu hymholiad yn cael ei gofnodi fel anfodlonrwydd neu gŵyn. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut i ddarparu gwasanaeth cwsmer syml heb fod angen i'r cwsmer gysylltu ag adrannau amrywiol wrth geisio datrysiad. Trafododd y CHTh ymagwedd Cymru Gyfan tuag at drin cwynion.

### c. Ymweliadau Gweinidogion â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu

Nodwyd y cwestiynau a gyflwynwyd gan Weinidogion.

## 7. Unrhyw Fusnes Arall

### a. Datganiad Rheoli'r Heddlu

Penderfynwyd y byddai diweddariad gan yr Heddlu'n cael ei roi yn y Bwrdd Plismona nesaf gan y DBG.

### b. Grant ar gyfer SCCH

Dywedodd y CHTh nad oedd llythyr ffurfiol wedi ei dderbyn. Dywedodd y CHTh y byddai'r mater yn cael ei godi mewn cyfarfod o Fwrdd Plismona Cymru Gyfan wythnos nesaf.

### c. Cyd-bwyllgor Archwilio

Rhoddodd y CHTh ddiweddariadau i'r CHTh ar geisiadau ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio.

**Penderfyniad: Y PSA a'r PS i gyfweld ag ymgeiswyr ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 03/10/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2196** | **Cam Gweithredu: Cyflwyno adroddiad ar opsiynnau ar gyfer dalfa yn Sir Gaerfyrddin i gefnogi'r penderfyniad ar brynu tir.** | **PSA** |
| **PB 2197** | **Cam gweithredu: KP i ysgrifennu at achwynyddion sydd wedi bod yn aros yn hir a drafodwyd yn ystod y cyfarfod gan nodi sut mae eu hachosion yn cael eu symud ymlaen.** | **KP** |

DRAFT